Archwilio Cymru
Audit Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Dafydd Gibbard
Prif Weithredwr
Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

**Cyfeirnod:** 3199A2022

**Dyddiad cyhoeddi:** Rhagfyr 2022

Annwyl Dafydd

## Cyngor Gwynedd – Diweddariad ar Gynnydd Datgarboneiddio

Mae gan y Cyngor weledigaeth glir ar gyfer sut y bydd yn cyflawni sero net erbyn 2030 ac yn buddsoddi mewn cynlluniau lleihau carbon. Fodd bynnag her allweddol fydd blaenoriaethu ei gynlluniau yn seiliedig ar ddealltwriaeth o effaith lleihad mewn carbon, cost y cynlluniau ac adnabod y cyllid ar gyfer cyflawni.

## Cyd-destun

Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol barodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030, a oedd yn edrych ar gamau datgarboneiddio mewn 48 o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys pob cyngor. Canfu'r adroddiad hwn ansicrwydd y bydd yr uchelgais ar y cyd ar gyfer sector cyhoeddus sero net erbyn 2030 yn cael ei gyflawni. Nododd ein gwaith rwystrau cyffredin sylweddol rhag cynnydd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus fynd i'r afael â nhw ar y cyd i gyflawni'r uchelgais ar y cyd. Canfuom er bod cyrff cyhoeddus yn dangos ymrwymiad i leihau carbon, mae'n rhaid iddyn nhw bellach gynyddu eu gweithgareddau yn sylweddol, cynyddu cydweithio a gosod datgarboneiddio wrth wraidd eu gweithrediadau a'u penderfyniadau o ddydd i ddydd.

Yn yr adroddiad, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud y pum galwad canlynol am gamau gweithredu gan gyrff cyhoeddus:

- cryfhau eich arweinyddiaeth a dangos eich cyfrifoldeb cyfunol drwy gydweithio'n effeithiol;
- egluro eich cyfeiriad strategol a chyflymu'r ffordd yr ydych yn gweithredu;
- mynd i'r afael â'r cyllid sydd ei angen arnoch;
- gwybod beth yw eich bylchau sgiliau a chynyddu eich capasiti; a
- gwella ansawdd a monitro data i gefnogi eich penderfyniadau.

Mae'r paragraffau canlynol yn nodi canfyddiadau ein gwaith archwilio lleol yng nghynllun gweithredu datgarboneiddio'r Cyngor. Mae'r canfyddiadau hyn yng nghyd-destun ehangach adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2022 sy'n galw am weithredu cyflymach ac arweinyddiaeth gadarnach ledled Cymru wrth leihau allyriadau carbon.

## Yr hyn a wnaethom:

Gwnaethom gynnal asesiad o drefniadau'r Cyngor i ddatblygu a chyflawni ei Gynllun Datgarboneiddio. Gwnaethom gasglu tystiolaeth drwy gyfweliad, adolygu dogfennau ac ymatebion i Alwad am Dystiolaeth y Cyngor ar gyfer yr Adolygiad Llinell Sylfaen o Ddatgarboneiddio.

## Yr hyn a ganfuom:

Mae gan y Cyngor hanes o fynegi ei uchelgeisiau ynghylch datgarboneiddio yn ei gynlluniau Rheoli Carbon blaenorol. Ym mis Mawrth 2019 datganodd y Cyngor Gwynedd argyfwng hinsawdd gan ymrwymo i 'gymryd camau pendant i leihau allyriadau carbon ac i weithio tuag at ddyfodol di-garbon'. Ei uchelgais presennol yw 'bod yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030'. Mabwysiadodd y Cyngor ei Gynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (y Cynllun) ym mis Mawrth 2022. Mae'r Cyngor hefyd wedi manteisio ar y cyfle i integreiddio ei ddull o weithredu o ran datgarboneiddio yn ei ddull o weithredu o ran ecoleg a bioamrywiaeth. Ceir tystiolaeth hefyd o'r ymrwymiad strategol i'r agenda hon drwy gael amcan llesiant penodol sy'n canolbwyntio ar 'fanteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir'. Mae 'ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd' yn un o'r wyth Blaenoriaeth Gwella yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023: Diwygiad 2021/22.

Er bod y Cynllun yn cynnwys amlinelliad lefel uchel o sut mae'n cyfrannu at y Nodau Cenedlaethol gellid cryfhau'r cynllun trwy ddisgrifio'r modd y mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac wedi ystyried y pum ffordd o weithio i gymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen


Cysylltwch â ni yn Gymraeg neu Saesneg / please contact us in Welsh or English.

rhoi tystiolaeth glir o gymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad sylfaenol o'i ôl-troed Carbon ac wedi nodi'r bwlch y mae angen ei gau er mwyn cyflawni allyriadau sero net ac wedi defnyddio hyn i helpu i lunio'r Cynllun. Ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod cyfleoedd i wella ei ddata yn y maes hwn. Er bod y Cyngor wedi manteisio ar y cyfle i nodi effeithiau carbon a chost rhai o'i ymyriadau, mae cyfran uchel o'r ymyriadau yn y cynllun lle nad yw'r effaith garbon a'r gost ariannol a'r arbediad terfynol yn hysbys. Felly, bydd yn bwysig i'r Cyngor ddatblygu proses flaenoriaethu, sy'n seiliedig ar fethodoleg glir ar gyfer cyfrifo'r effeithiau hyn. Bydd hyn wedyn yn ei alluogi i ganolbwyntio ei adnoddau yn y meysydd hynny sy'n gallu darparu'r effaith fwyaf. Mae'r Cyngor wedi dweud wrthym ei fod yn disgwyl i'r fethodoleg hon gael ei chymeradwyo yn fuan.

Mae dulliau llywodraethu, monitro ac adrodd ar ddull gweithredu’r Cyngor o ran datgarboneiddio wedi'u hamlinellu'n glir yn y Cynllun. Mae'r Cyngor wedi dweud wrthym ei fod yn bwriadu monitro'r gwaith o gyflawni ei Gynllun fel rhan o'i broses monitro perfformiad arferol. Mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu Bwrdd Newid Hinsawdd fel is-bwyllgor o'r Cabinet, sy'n darparu canllawiau strategol, ac yn cynnwys uwch arweinwyr, aelodau craffu a swyddogion. Mae'r Cyngor yn crynhoi ei allyriadau carbon yn y Cynllun ac mae ganddo rai cyfeiriadau yn ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2021/22.

Nid yw'r Cynllun wedi'i ddatblygu ar sail ymgynghori eang a chyfranogiad dinasyddion. Bwriad y cyngor yw defnyddio dulliau ymgynghori megis Ardal Ni 2035 i gasglu adborth ar ei ddull o weithredu o ran datgarboneiddio a fydd yn cael ei ddefnyddio i lywio Cynllun wedi'i ddiweddaru ar gyfer ymgynghori yn gynnar yn 2023 y flwyddyn nesaf. Bydd cael dealltwriaeth glir o safbwyntiau dinasyddion a rhanddeiliaid ehangach a sut y gallant gefnogi'r Cyngor yn gam pwysig wrth lunio gweledigaeth gyffredin ar gyfer ei uchelgeisiau sero net.

Mae'r Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gyda phartneriaid ac yn rhoi rhai enghreifftiau o le bydd angen partneriaid i gefnogi ei weithredoedd megis; y gwaith ar Gynllun Ynni Lleol a Hyb Hydrogen Glannau Dyfrdwy o dan arweiniad Uchelgais Gogledd Cymru a'i bartneriaeth â chwmni Tusker i gynnig cynllun 'car gwyrdd' i staff. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo barhau i archwilio cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill os yw am wireddu ei weledigaeth o fod yn sero net erbyn 2030.

Dywedodd y Cyngor; ‘hyd yma mae Cyngor Gwynedd wedi buddsoddi bron i £8 miliwn ar brosiectau rheoli carbon gan arwain at arbediad o £4,063,000 a fydd yn parhau i gronni’. Mae’r Cyngor wedi:

- dynodi £3,000,000 wrth osod cyllideb eleni;
- wedi datgan yn glir y bydd yn fodlon defnyddio reserfau ar gyfer cynlluniau; ac
- mae cais am £2.8 miliwn o gyfalaf buddsoddi i arbed (ar gyfer paneli solar) o flaen Cabinet ar 22 Tachwedd.

Ond nid yw'r Cyngor wedi adnabod yr holl gynlluniau a cyllid sydd ei angen  ar gyfer cyflawni ei Gynllun sero net erbyn 2030. Mae perygl sylweddol felly na fydd y Cyngor yn cyrraedd y targed allyriadau sero net erbyn 2030. Mae'r Cyngor wedi penodi Rheolwr Newid Hinsawdd er mwyn helpu i reoli ei ddull gweithredu, ac mae ganddo Gronfa Cynllun Hinsawdd fechan y bydd yn ei defnyddio i roi arian cyfatebol i brosiectau datgarboneiddio. Er bod y Cyngor yn ymwybodol o grantiau y gallai eu defnyddio i ariannu rhai o'i fentrau datgarboneiddio mae capasiti cyfyngedig ar hyn o bryd o fewn y tîm i wneud cais am y grantiau hyn a'u rheoli, heb effeithio ar gyflawniad y Cynllun. Os yw'r Cyngor am gyflawni ei uchelgeisiau bydd angen iddo ddiweddaru ei gynllun ariannol tymor canolig a'i strategaeth gyfalaf er mwyn cefnogi ei nod o gyflawni sero net.

## Argymhellion

**Arddangosyn 1 argymhellion**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion a nodwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn

<table>
<tr><th>Argymhellion</th></tr>
<tr><td>A1 Dylai'r Cyngor sicrhau bod y camau lefel uchel yn ei gynllun datgarboneiddio:<br>- wedi'u blaenoriaethu yn seiliedig ar feini prawf clir, gan gynnwys effaith carbon ac ariannol;<br>- yn cyd-fynd â'i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'i Raglen Gyfalaf; ac<br>- wedi'u hintegreiddio mewn cynlluniau busnes.</td></tr>
<tr><td>A2 Dylai'r Cyngor ddatblygu cyfres gadarn o fetrigau i fesur ac adrodd ar y cynnydd ar ei daith ddatgarboneiddio.</td></tr>
</table>

Yn gywir

Alan Hughes

Archwilydd Arweiniol